**Ymateb y Llywodraeth: Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol (Rhif 2) (Cymru) 2022**

***Ymateb i'r Pwyntiau Adrodd***

***Craffu Technegol***

***Pwynt 1: Rheol Sefydlog 21.2(iv) - ei bod yn ymddangos bod iddo effaith ôl-weithredol lle nad yw'r deddfiad sy'n ei awdurdodi yn rhoi awdurdod pendant ar gyfer hyn***

*Nid yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o unrhyw faterion nac annhegwch y mae cymhwyso'r Gorchymyn yn ôl-weithredol wedi eu hachosi'n ymarferol i weithwyr amaethyddol neu eu cyflogwyr.*

*Mae Llywodraeth Cymru a'r Panel yn cytuno bod rhaid i Orchymyn 2023 gael ei wneud mewn modd amserol a heb effaith ôl-weithredol. Cafodd Gorchymyn (Rhif 2) 2022 ei wneud yn hwyrach na'r dyddiad dod i rym arferol, sef 1 Ebrill, oherwydd yr oedi yn gwneud Gorchymyn 2022. Ni ddisgwylir i'r oedi yn gwneud Gorchymyn (Rhif 2) 2022 achosi oedi yn gwneud Gorchymyn 2023.*

*Cynhelir cyfarfodydd nesaf y Panel ar 5 a 6 Medi 2022, pan gaiff Gorchymyn drafft 2023 ei negodi a'i gytuno cyn ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae swyddogion polisi wedi llunio amserlen yn nodi'r cerrig milltir allweddol a'r pethau allweddol i'w cyflawni er mwyn i'r Panel gytuno arnynt a fydd yn sicrhau bod Gorchymyn 2023 yn cael ei wneud erbyn 1 Ebrill 2023, fel y mae'r Panel yn ei fwriadu.*

***Pwynt 2: Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol***

*Mae Llywodraeth Cymru wedi clicio ar y ddolen i'r llyfrgell fframweithiau ac mae yn gweithio. Mae'n amlwg o'r llyfrgell fframweithiau pa fframweithiau a gaiff eu cyhoeddi gan Lantra a dyddiad cyhoeddi pob un o'r fframweithiau hynny.*

*Y diffiniad o 'fframwaith prentisiaethau' yw "unrhyw un neu ragor o'r fframweithiau prentisiaethau* ***cyfredol*** *ar gyfer y sector amaethyddol yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lantra, neu fersiynau blaenorol o'r fframweithiau prentisiaethau ar gyfer y sector amaethyddol yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lantra". Ym marn Llywodraeth Cymru mae'r defnydd o'r gair 'cyfredol' yn ei gwneud yn glir mai'r fframweithiau prentisiaethau hynny sydd wedi cael eu cyhoeddi cyn y dyddiad y daw'r Gorchymyn i rym a ystyrir.*

***Pwynt 3: Rheol Sefydlog 21.2(v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol***

*Mae erthygl 10 wedi cael ei chynnwys yn y Gorchymyn Cyflogau Amaethyddol ers 2016. Fe'i cynhwysir er mwyn sicrhau bod cyflogeion amaethyddol yn cadw tystiolaeth ddogfennol o'u cymwysterau a'u profiad fel bod modd iddynt ddangos i'w cyflogwr fod ganddynt y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol i'w cyflogi ar radd benodol. Ni fyddai Llywodraeth Cymru yn cynnig gorfodi'r ddarpariaeth hon. Yn syml, os nad yw cyflogeion yn cydymffurfio ag erthygl 10 nac yn cadw tystiolaeth ddogfennol o'u*

*cymwysterau a'u profiad, na fyddant o bosibl yn gallu dangos i'w cyflogwr fod ganddynt y cymwysterau a'r profiad angenrheidiol i'w cyflogi ar radd benodol.*

***Craffu ar Rinweddau***

***Pwynt 4: Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Senedd***

*Cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant mewn perthynas â'r Gorchymyn a chafodd ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Integredig. Ni roddwyd unrhyw sylw penodol i erthyglau 29, 30 na 31, gan fod yr erthyglau hyn yn adlewyrchu'r darpariaethau presennol sy'n ymwneud â seibiannau gorffwys a geir yn Rheoliadau Amser Gwaith 1998, ac sydd felly eisoes yn gymwys i gyflogeion amaethyddol yng Nghymru.*